# Cwymp Louis Napoleon ac argyfwng 1870–71 yn Ffrainc

Philippe Le Goff

Mae'r erthygl hon yn trafod dyrchafiad a chwymp Ail Ymerodraeth Napoleon a'r frwydr ddilynol dros ddinas Paris, a grym yn Ffrainc.



Napoleon III

PRISMA ARCHIVO / Alamy Stock Photo

Gwelwyd newid mawr yn nhirwedd wleidyddol Ffrainc yn 1870–71. Mewn naw mis yn unig, fe wnaeth ymerodraeth gwympo, fe wnaeth gweriniaeth newydd godi ar ei thraed ac fe wnaeth gwrthryfel dan arweiniad y gweithwyr gael ei sathru i'r llawr. Beth oedd achosion a chanlyniadau'r fath derfysg?

## Diwedd ymerodraeth

Yn dilyn cael ei ethol yn arlywydd Ail Weriniaeth Ffrainc ym mis Tachwedd 1848, gwnaeth Louis Napoleon Bonaparte gyflawni coup d'état ym mis Rhagfyr 1851. Gwnaeth ddiddymu'r Cynulliad Cenedlaethol a chipio grym goruchaf (*supreme power*). Flwyddyn yn ddiweddarach, ym mis Rhagfyr 1852, gwnaeth Napoleon ei goroni ei hun yn Ymerawdwr Napoleon III, gan sefydlu'r Ail Ymerodraeth.

Prif nodweddion blynyddoedd cynnar teyrnasiad Napoleon III oedd rheolaeth awdurdodaidd a gorthrwm gwleidyddol. Roedd y gyfundrefn newydd yn defnyddio llywodraeth leol a'r wasg i reoli a llywio'r farn gyhoeddus. Roedd anghydffurfiaeth (*dissent*) bellach wedi'i wahardd, ac roedd Napoleon III yn brawychu unrhyw wrthwynebwyr – gorfodwyd llawer o weriniaethwyr i alltudiaeth ledled Ewrop. Roedd Napoleon III yn credu y gallai sicrhau cefnogaeth y bobl drwy dwf a ffyniant economaidd. Roedd y wladwriaeth yn annog diwydianeiddio a moderneiddio drwy fuddsoddi mewn isadeiledd cenedlaethol, fel y rheilffyrdd. Yn yr un modd, roedd polisïau eraill, gan gynnwys diwygio'r sector bancio, yn hwyluso gweithgarwch economaidd cynyddol.

**CYSYLLTIADAU AG ARHOLIADAU**

**CBAC Uned 1 Opsiwn 7** Chwyldro a syniadau newydd yn Ewrop tua 1780–1881

Yn yr 1860au, ildiodd Napoleon III rai consesiynau i'w wrthwynebwyr gwleidyddol, gan groesawu rhai diwygiadau penodol. Cafwyd gwared ar y cyfyngiadau yr oedd wedi eu rhoi ar y wasg, a chyfreithlonwyd cyfarfodydd cyhoeddus a streiciau. Fodd bynnag, erbyn diwedd yr 1860au, roedd yn ymddangos nad oedd strategaeth wleidyddol Napoleon III – sef ffyniant economaidd i annog cefnogaeth y bobl a chonsesiynau gwleidyddol i blesio rhyddfrydwyr a gweriniaethwyr cymedrol – yn llwyddo bellach. Dim llawer o bobl oedd wedi elwa ar dwf economaidd yr 1850au. Roedd yr economi bellach yn farwaidd, a gwrthwynebiad gwleidyddol ar gynnydd.

## Defnyddio rhyfel

Ym mis Gorffennaf 1870, gwnaeth Napoleon III gyhoeddi rhyfel yn erbyn Prwsia dan Bismarck. Y dybiaeth oedd y byddai buddugoliaeth filwrol yn rhoi stop ar gryfder a dylanwad cynyddol Prwsia ar draws Ewrop. Roedd Napoleon hefyd yn tybio y byddai'r rhyfel yn dangos grym a mawredd ei gyfundrefn ef ei hun i'w gefnogwyr a'i wrthwynebwyr, gartref a thramor. Roedd strategaeth debyg wedi gweithio o'r blaen yn dilyn buddugoliaeth dros Rwsia yn Rhyfel y Crimea yn 1853–56, a buddugoliaeth dros Awstria ym mrwydrau Solferino a Magenta yn 1859. Ond methiant syfrdanol fu'r strategaeth yn 1870, fodd bynnag. Cafodd milwyr Ffrainc eu trechu. Cafodd Napoleon III, a oedd yn arwain byddin Ffrainc, ei gipio gan y Prwsiaid yn Sedan (gogledd ddwyrain Ffrainc) ar 1 Medi 1870. Cafodd ei garcharu gan y Prwsiaid, a wnaeth ei ryddhau y flwyddyn ganlynol. Treuliodd ei flynyddoedd olaf yn alltud yn Lloegr tan iddo farw yn 1873.

## Paris dan warchae

Mewn ymateb i'r gorchfygiad yn Sedan ac arestio Napoleon III, cafodd yr ymerodraeth ei diddymu, a gweriniaeth newydd ei chyhoeddi ar 4 Medi 1870. Ffurfiwyd Llywodraeth Amddiffyn Cenedlaethol dros dro i arwain ymdrech y rhyfel, a oedd yn cynnwys gweriniaethwyr cymedrol yn bennaf, dan arweiniad y Cadfridog Louis-Jules Trochu. Yn y cyfamser, gwnaeth milwyr Prwsia barhau i symud i gyfeiriad Paris, gan roi prifddinas Ffrainc dan warchae ar 19 Medi. Yn ôl Bismarck, byddai pobl Paris yn llwgu hyd nes y byddai'r ddinas yn ildio.

Roedd yr amgylchiadau ym Mharis yn ystod y gwarchae yn erchyll. Gyda gaeaf arbennig o galed ar ddechrau, a'r Prwsiaid yn bombardio'r ddinas, roedd trigolion y ddinas yn wynebu prinder difrifol o ran bwyd, tanwydd a chyflenwadau sylfaenol eraill. Gwnaeth yr amddifadedd materol hwn gyfrannu at radicaleiddio gwleidyddol yn y ddinas. Roedd radicaliaid asgell chwith yn ymosod ar y Llywodraeth Amddiffyn Cenedlaethol oherwydd ei hymateb milwrol aneffeithiol i oresgyniad Prwsia. Galwyd ar y cyhoedd i wrthsefyll y gwarchae, gan annog pobl Paris i amddiffyn Ffrainc. Roedd galw cynyddol hefyd am sefydlu llywodraeth drefol ymreolaethol a blaengar ym Mharis, sef Comiwn. Roedd pobl yn gobeithio y byddai'n rhoi arweiniad i ymdrech ddi-drefn y rhyfel, ac yn cyflwyno diwygiadau cymdeithasol.



**Paentiad gan Narcisse Chaillou yn dangos gwerthwr llygod mawr yn ystod gwarchae Paris.**

Masterpics / Alamy Stock Photo

## Ffrainc yn ildio

Doedd y Llywodraeth Amddiffyn Cenedlaethol ddim yn rhannu'r un ysbryd gwrthsefyll. Fe wnaeth ildio i Brwsia ar 28 Ionawr 1871. Yna, ym mis Chwefror, etholwyd Cynulliad Cenedlaethol gyda'r rhan fwyaf o'r aelodau'n frenhinwyr ac yn geidwadwyr a oedd yn awyddus i ddod â'r rhyfel i ben ac adfer trefn. Penodwyd Adolphe Thiers, gwleidydd ceidwadol blaenllaw, yn bennaeth y llywodraeth. Aeth ati i drafod cytuniad heddwch lle byddai gan Ffrainc ddyled o filiynau o ffranciau fel **digollediad** (*indemnity*). Byddai Alsace-Lorraine hefyd yn cael ei chyfeddiannu (*annexed*) gan yr Almaen unedig newydd (roedd Bismarck wedi datgan uniad yr Almaen yn y Neuadd Ddrychau ym Mhalas Versailles ar 18 Ionawr 1871, a thrwy hynny sefydlu gwladwriaeth fodern yr Almaen).

Achosodd telerau'r cadoediad (*armistice*) sioc a dicter ym Mharis, yn enwedig mewn ardaloedd dosbarth gweithiol yng ngogledd a gogledd ddwyrain y ddinas. Roedd ymdeimlad o gywilydd cenedlaethol yn gymysg ag ofn gweriniaethol y byddai'r frenhiniaeth yn cael ei hadfer. Roedd y llywodraeth yn ofni aflonyddwch cymdeithasol, a cheisiodd ailsefydlu ei rheolaeth dros Baris. O ganlyniad, gwnaeth rhaniad gwleidyddol clir rhwng Paris a'r llywodraeth newydd ymddangos. Roedd gwrthdaro yn teimlo'n anochel.

Dywedodd yr awdur Victor Hugo un tro fod Paris:

> ‘yn debyg i arf tanio; ar ôl ei lwytho, mae un gwreichionyn ar grwydr yn ddigon i danio'r ergyd.’

Roedd ymgais milwyr y llywodraeth i gipio canonau Gwarchodwyr Cenedlaethol Paris – sef byddin y dinasyddion ac arweinwyr amddiffyniad Paris yn ystod y gwarchae – yn wreichionyn o'r fath. Cododd pobl Paris yn erbyn yr ymgais hon i'w diarfogi, ac yn dilyn etholiad arall yn y ddinas, cyhoeddwyd Comiwn ar 18 Mawrth 1871.

**digolledriad** Arian sy'n cael ei dalu fel iawndal gan wlad sydd wedi'i threchu mewn rhyfel, yn un o'r amodau heddwch.

**gwarchae** Ymgyrch filwrol lle mae byddin yn amgylchynnu tref neu ddinas, gan rwystro cyflenwadau hanfodol, gyda'r nod o orfodi'r rheini ar y tu mewn i ildio.

## Gwrthryfel ym Mharis

Dros y 72 diwrnod nesaf ym Mharis – roedd y Comiwn ar waith o 18 Mawrth tan 28 Mai 1871 – ceisiodd y gweithwyr newid y ffordd roedden nhw'n byw eu bywyd. Roedden nhw'n arbrofi gyda mathau o ddemocratiaeth uniongyrchol a threfniadaeth gymdeithasol egalitaraidd. Trefnwyd gwaith ar sail egwyddorion cymdeithasiad (*association*) a chydweithredu (*cooperation*). Roedd addysg am ddim, ar gael i bawb, yn orfodol ac yn seciwlar. Cafodd yr eglwys a'r wladwriaeth eu gwahanu. Roedd menywod yn chwarae rhan flaenllaw yn y Comiwn, yn y gwrthryfel cychwynnol yn erbyn y llywodraeth ar 18 Mawrth ac wrth amddiffyn y brifddinas yn filwrol wedi hynny. Daeth statws, hawliau a gofynion menywod yn fwy amlwg, gyda ffigurau fel Louise Michel yn cael eu dathlu am eu penderfyniad a'u hymrwymiad gwleidyddol.

### Arwyddocâd y Comiwn

Byth ers cyhoeddi Comiwn Paris, roedd dipyn o ddadlau am ei ystyr a'i bwysigrwydd. Ai dyma'r llywodraeth sosialaidd gyntaf? Ai ymateb gwladgarol ydoedd wrth i'r llywodraeth ildio i Brwsia a 'bradychu' ei phobl ei hun? Ai byddin weriniaethol ydoedd yn erbyn y bygythiad posibl o adfer y frenhiniaeth? Ai mudiad poblogaidd dros ymreolaeth drefol? Ai cyfuniad o'r uchod i gyd?

Dadleuodd yr athronydd a'r economegydd Karl Marx mai 'mesur cymdeithasol mawr y Comiwn oedd ei fodolaeth weithredol ei hun'. Ddim yr hyn a wnaeth y Comiwn neu'r hyn y ceisiodd ei gyflawni oedd yn arwyddocaol, ond yn hytrach y ffaith bod dynion a menywod cyffredin wedi cymryd rhan weithredol mewn amrywiol fathau o drefniadaeth gymdeithasol a gwleidyddol, gan ddangos eu gallu i wneud hynny. Yn yr ystyr hwn, y Comiwn, fel yr awgrymodd Marx, oedd yr enghraifft gyntaf o 'lywodraeth y bobl, gan y bobl'.

**Comiwnwr** Yr enw a roddwyd i gefnogwyr Comiwn Paris.

## Blwch 1 Cyfundrefnau gwleidyddol yn Ffrainc yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Y Weriniaeth Gyntaf: 1792–1804
Yr Ymerodraeth Gyntaf: 1804–1814, 1815
Adferiad Bourbon: 1815–1830
Brenhiniaeth Gorffennaf: 1830–1848
Yr Ail Weriniaeth: 1848–1852
Yr Ail Ymerodraeth: 1852–1870
Y Drydedd Weriniaeth: 1870–1940

## Yr 'wythnos waedlyd'

Mae'r ffordd y daeth y Comiwn i ben yr un mor arwyddocaol a dadleuol. Yn dilyn sefydlu'r Comiwn, roedd y fyddin (a miloedd o bobl gyfoethog Paris) wedi encilio i Versailles. Aeth Paris dan warchae am yr eildro, ond y tro hwn llywodraeth Ffrainc oedd yn gosod ei phrifddinas ei hun dan warchae. Roedd rhyfel Ffrainc-Prwsia wedi esblygu'n rhyfel cartref yn Ffrainc. Cododd y **Comiwnwyr** faricedau ar draws Paris i gadw unrhyw ymosodiadau yn ôl. Cafwyd sgarmesau ar gyrion y ddinas rhwng y Gwarchodwyr Cenedlaethol a'r fyddin. Yn y cyfamser, yn Versailles, dechreuodd y llywodraeth gynnull llu milwrol a allai ail-gipio'r brifddinas.



Comiwnwyr yn dymchwel Colofn Vendôme yn 1871, sef symbol o imperialaeth. Cerflun o Napoleon I oedd ar frig y golofn.

Gainew Gallery / Alamy Stock Photo




**Gwawdlun o Napoleon III o'r cyfnodolyn Saesneg *Vanity Fair* yn 1869. A yw'n darogan tynged Napoleon efallai?**

Ar 21 Mai, anfonodd Thiers ei filwyr i mewn, dan arweiniad y Marsial Patrice MacMahon. Gwelwyd trais dychrynllyd o ganlyniad. Dros y dyddiau nesaf, yr amcangyfrif yw bod milwyr Versailles wedi lladd 20,000 o'r Comiwnwyr. Cafodd 5,000 yn rhagor eu carcharu a'u trawsgludo'n ddiweddarach i drefedigaethau cosbi. Daeth y gorthrwm hwn, a wnaeth bara o 21–28 Mai, yn adnabyddus fel y *semaine sanglante* (yr 'wythnos waedlyd').

## Grym gormodol

Gwnaeth llywodraeth Versailles ymosod yn ddidrugaredd ar y Comiwnwyr gan ddefnyddio llawer mwy o drais nag yr oedd ei angen i ailgipio Paris. Mae'r ffordd y cafodd miloedd o bobl eu lladd ar strydoedd Paris – llawer yn cael eu dienyddio, llawer yn eu plith yn sifiliaid – wedi cael ei disgrifio fel cyflafan fwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Ewrop. Roedd yn ymddangos bod y llywodraeth am wneud mwy na gorchfygu'r grym gwrthwynebus hwn yn unig. Roedd hefyd am gael gwared ar fygythiad gwrthryfel poblogaidd yn llwyr, a thorri'r cylch o derfysg chwyldroadol a oedd wedi bod ar waith yn Ffrainc ers 1789 (gweler Blwch 1). Fel y nododd yr awdur ceidwadol Edmond de Goncourt ar y pryd, 'mae'r fath gyrch gwared, drwy ladd rhan ymladdgar y boblogaeth, yn gohirio'r chwyldro nesaf am genhedlaeth gyfan.'

Roedd 1870–71 yn nodi dechrau a diwedd yn Ffrainc. Byddai'r Drydedd Weriniaeth yn para'n hirach nag unrhyw gyfundrefn arall yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. (Gwnaeth y Drydedd Weriniaeth barhau tan iddi gael ei threchu gan oresgyniad milwrol arall gan yr Almaen yn 1940). Ond yn ogystal â chwymp Ail Ymerodraeth Napoleon III, roedd y cyfnod hefyd yn ddiwedd dramatig i ganrif o chwyldro yn Ffrainc. O 1789 ac 1792 i 1830 ac 1848 – daeth y cyfnod gwleidyddol hwn i ben wrth i Gomiwn Paris gael ei drechu ym mis Mai 1871.

## FFIGURAU ALLWEDDOL

### Otto von Bismarck (1815–98)
Gweinidog Prwsia a Changhellor Ymerodraeth yr Almaen 1871–90. Pensaer uniad yr Almaen.

### Patrice MacMahon (1808–93)
Cadfridog Ffrengig a chadlywydd lluoedd Versailles, a wnaeth drechu Comiwn Paris. Ef oedd olynydd Adolphe Thiers fel arlywydd, 1873–79.

### Karl Marx (1818–83)
Athronydd ac economegydd o'r Almaen. Un o'r ffigurau a wnaeth sefydlu'r mudiad sosialaidd modern. Mae'n fwyaf adnabyddus am y *Communist Manifesto* (1848) a *Das Kapital* (1867).

### Louise Michel (1830–1905)
Anarchydd o Ffrainc a ffigur amlwg yng Nghomiwn Paris. Cafodd ei halltudio i Galedonia Newydd am ei rhan yn y Comiwn. Cafodd ddychwelyd i Ffrainc ar ôl amnest gan y llywodraeth yn 1880.

## DARLLEN PELLACH

Gopnik, A. The Fires of Paris: Why do people still fight about the Paris Commune? *New Yorker*. 15 Rhagfyr 2014. Ar gael yn **https://tinyurl.com/y7v9h9xu**

Merriman, J. (2014) *Massacre: The Life and Death of the Paris Commune*, New Haven: Yale University Press.

Nelsson, R. The Paris Commune – from the archive, 1871. *The Guardian*. 26 Mehefin 2019. Ar gael yn **https://tinyurl.com/y4jafxjm**

The Siege of Paris 1870–71. *In Our Time*, 16 Ionawr 2020. Ar gael yn **https://tinyurl.com/sodu8nw**

## CWESTIYNAU ENGHREIFFTIOL

1 Pa fath o gyfundrefn oedd yr Ail Ymerodraeth?

2 Pam gwnaeth Ffrainc ildio i Brwsia ym mis Ionawr 1871?

3 Beth oedd nodau Comiwn Paris? Sut dylen ni ei nodweddu?

4 Pam roedd yr ymdrech i drechu Comiwn Paris mor dreisgar?

Mae **Philippe Le Goff** yn dysgu yn yr Ysgol Ieithoedd a Diwylliannau Modern, Prifysgol Warwick.